OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 357

# Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (Diwygio) 2017

**Diwygiadau i Reoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Ffurfiau Rhagnodedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (ffurfiau rhagnodedig mewn cysylltiad â gorchmynion prynu gorfodol)—

(a) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(4A) At ddibenion adran 15(4)(e) o'r Ddeddf a pharagraff 6(4)(e) o Atodlen 1 iddi, ffurf y datganiad am effaith Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(**2**) y mae'n rhaid ei defnyddio yw Rhan 1 o Ffurf 9A.

(4B) At ddibenion adran 15(4)(f) o'r Ddeddf a pharagraff 6(4)(f) o Atodlen 1 iddi, y ffurf ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r awdurdod y mae'n rhaid ei defnyddio yw Rhan 2 o Ffurf 9A.";

(b) ym mharagraff (5) yn lle "adran 15" rhodder "adran 15(5)" ac yn lle "pharagraff 6" rhodder "pharagraff 6(5)".

(3) Yn yr Atodlen—

(a) yn y cynnwys, ar ôl yr eitem ar gyfer Ffurf 9, mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Ffurf 9A | Ffurf ar ddatganiad o effaith Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ac ar gyfer rhoi gwybodaeth i'r awdurdod"; |

(b) ar ôl Ffurf 9, mewnosoder y ffurf yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(c) yn lle Ffurf 10, rhodder y ffurf yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

(d) yn lle Ffurf 11, rhodder y ffurf yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2004/2732 (Cy. 239).
(**2**) 1981 p. 66.